
| PWYLLGOR CYNLLUNIO | DYDDIAD: 12/01/2015 |
| --- | --- |
| ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO AC AMGYLCHEDD | CAERNARFON |

**Rhif**: **9**

**Rhif y Cais / Application Number : C14/1065/42/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C14/1065/42/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 20/10/2014 |
| Math y Cais*:* | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned*:* | Nefyn |
| Ward: | Morfa Nefyn |
| Bwriad: | LLEOLI 7 LLAIN CARAFAN TEITHIOL NEWYDD AR Y SAFLE PRESENNOL YNGHYD AG YMESTYN Y SAFLE I LEOLI 14 LLAIN CARAFAN TEITHIOL GYDA GWELLIANNAU I'R FYNEDFA I'R SAFLE, TIRLUNIO A GWAITH CYSYLLTIOL |
| Lleoliad: | TY'N Y COED TOURING PARK, MORFA NEFYN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL536BP |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATÁU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais yw hwn ar gyfer cynyddu niferoedd ac ymestyn safle carafanau teithiol 20 carafán bresennol yn Tŷ'n y Coed, Morfa Nefyn. Byddai'r bwriad arfaethedig yn golygu ychwanegu 7 llain newydd o fewn y safle presennol gan gynnwys gwelliannau i'r fynedfa, tirlunio a gwaith cysylltiol. Bwriedir hefyd i ymestyn y safle i gae cyfochrog, ble saif y cyfleusterau toiledau presennol a charafán sefydlog hanesyddol, er mwyn lleoli 14 carafán deithiol o amgylch ffiniau'r cae. Byddai'r nifer ychwanegol arfaethedig o 21 carafan felly, yn rhoddi cyfanswm o 41 uned ar y safle.

1.2 Saif y safle ym mhentref Morfa Nefyn a cheir mynediad oddi ar y brif ffordd sirol y B4417 i mewn i'r safle. Deallir bod y safle'n gweithredu fel maes carafanau teithiol ers y 1990au cynnar. Mae ffiniau'r safle wedi eu tirlunio gyda gwrychoedd aeddfed a choed yma thraw o fewn y safle. Ceir llwybr cyhoeddus tu hwnt i wrych terfyn ffin ddwyreiniol y safle estynedig a ffordd sirol gul ddi-ddosbarth tu draw i ffin orllewinol y safle. Mae'r safle tu allan i ffin datblygu pentref Morfa Nefyn ac mae o fewn tir, sydd wedi ei ddiffinio ym mapiau gosodiad Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, fel llecyn agored i'w warchod rhwng pentref Morfa Nefyn a chanolfan leol Nefyn.

1.3 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor gan ei fod yn ymwneud a datblygiad o 5 carafán neu fwy.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI A2 GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B11 LLECYNNAU AGORED RHWNG NEU O FEWN PENTREFI A THREFI Sicrhau y gwrthodir cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i swyddogaeth neu bwysigrwydd llecynnau agored rhwng trefi/pentrefi neu lecynnau o fewn trefi neu bentrefi sy'n bwysig i'w gymeriad.

POLISI B23 MWYNDERAU Diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau’r ardal leol.

POLISI B27 CYNLLUNIAU TIRLUNIO Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy’n briodol ar gyfer y safle ac sy’n ystyried cyfres o ffactorau sy’n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI CH22 Gwarchodir pob rhan o’r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wahardd cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro’r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol.

POLISI CH33 DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a’r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI D20 SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA AC UNEDAU TEITHIOL – ESTYNIADAU, LLEINIAU YCHWANEGOL, ADLEOLI A CHYFNEWID Caniatáu cynigion i gynyddu nifer y lleiniau, estyniadau i safleoedd, neu adleoli lleiniau neu gyfnewid llecynnau os yw’r cynnig yn ffurfio rhan o gynllun i sicrhau gwelliannau amgylcheddol a gweledol, a meini prawf eraill sy’n ymwneud ag effaith y datblygiad ar yr ardal leol.

Canllaw Cynllunio Atodol, Cyngor Gwynedd: Llety Gwyliau (Gorffennaf 2011)

Canllaw Cynllunio Atodol, Cyngor Gwynedd: Cynllunio a’r Iaith Gymraeg (Tachwedd 2009)

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru 2014
Nodyn Cyngor Technegol 13 – Twristiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a’r Iaith Gymraeg

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C00D/0163/42/LL Adeiladu bloc toiledau a chawodydd: Caniatáu 23 Mehefin 2000

C98D/0453/22/LL Lleoli 10 carafán ychwanegol: Caniatáu 3 Mehefin 1999

C98D/0218/22/LL Defnyddio tir ar gyfer storio carafanau teithiol yn ystod y tymor gwyliau: Gwrthod 31 Gorffennaf 1998

2/22/310C Safle i 10 carafán deithiol: Caniatáu 21 Gorffennaf 1994

2/22/310B Cyfleusterau toiledau: Caniatáu 22 Ionawr 1992

2/22/310A Safle i 10 carafán deithiol (ni weithredwyd): Caniatáu 31 Hydref 1986

2/22/310 Mynedfa ar gyfer carafanau teithiol Caniatáu 1 Mawrth 1983

3/4/816 Lleoli un garafán (sefydlog) Caniatáu 30 Gorffennaf 1965

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim gwrthwynebiad. |
| Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad. Mae'r safle yn ochri ag un o'r prif ffyrdd, sef y ffordd ddosbarth B trwy bentrefi Nefyn a Morfa Nefyn, ac felly tydi'r cynnydd mewn niferoedd ddim yn debygol o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd. Nodaf hefyd y bwriad i newid y ffiniau gyda'r briffordd a chadarnhaf nad oes gennyf wrthwynebiad os cadwir at yr un llinell tirlunio. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Cyflwyno sylwadau o agwedd cydymffurfiaeth a thrwydded safle. |
| Uned Llwybrau: | Mae'r Adran Cefn Gwlad a Mynediad yn bryderus i sicrhau bydd llwybr cyhoeddus rhif 11 B Nefyn yn cael ei warchod yn ystod ac ar ddiwedd y datblygiad. |
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn |
| Gwasanaeth Tan: | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a hysbyswyd y cymdogion agosaf. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ar 27 Tachwedd 2014. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi D20 o GDUG yn caniatáu cynigion i gynyddu nifer y lleiniau ar safleoedd carafanau teithiol presennol fel estyniad, cyhyd a bod y cynnig yn ffurfio rhan o gynllun a fydd yn arwain at welliannau amgylcheddol a gweledol o ran lleoliad, gosodiad, dyluniad a gwedd y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch. Yn ogystal, mae gofyn na fydd y datblygiad arfaethedig tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i gynnwys datblygiad o'r fath, wrth ystyried unrhyw effaith gronnol safleoedd carafanau teithiol presennol.

5.2 Mae'r bwriad gerbron yn estyniad i safle sydd â hawl presennol i 20 carafán deithiol. Bwriedir ychwanegu 7 llain newydd i'r safle presennol, ymgymryd â gwelliannau i'r fynedfa, tirlunio ynghyd a gosod 14 carafán deithiol newydd a'r gae cyfochrog, fyddai'n rhoddi cyfanswm o 41 uned ar y safle. Mae'r cae presennol yn ymestyn yn hir a gwastad oddi wrth ffordd sirol y B4417 ac yn gymharol ddisylw yn y tirlun, gyda chlawdd wedi ei blannu ar y ffin gyda'r lon. Ceir gwrychoedd aeddfed ar weddill y ffiniau. Mae'r cae sy'n destun yr estyniad hefyd yn ddisylw, wedi ei leoli tu ôl i adeiladau amaethyddol eiddo Bryn Iddon ac eto wedi ei dirlunio'n dda o amgylch y ffiniau. Saif bloc cyfleusterau toiledau'r safle yn y cae yma, ynghyd a charafán sefydlog hanesyddol. Ymddengys bod gwelliannau amgylcheddol eisoes wedi eu gwneud yn ddiweddar o fewn y safle, gyda lôn llechi man, safle parcio a phlannu wedi cymryd lle. Bwriedir ymgymryd ag ychwaneg o dirlunio fel rhan o'r bwriad, fyddai'n cynnwys gosod rhes o goed ar ganol cae'r estyniad a phlannu coed o fewn

terfynau’r gwrychoedd presennol. Nid yw’r safle’n amlwg nac ymwthiol yn y tirlun nac yn cael ardrawiad niweidiol o ran mwynderau gweledol y cyffiniau. Credir bod lleoliad, gosodiad unedau a thirlunio o fewn y safle yn sicrhau y byddai’r unedau newydd yn integreiddio'n dderbyniol i’r safle. Tra sylweddolir fod y nifer o unedau teithiol yn dyblu ar y safle, credir bod y niferoedd o fewn gallu rhesymol y cyffiniau i ymdopi a’r cynnydd o ystyried bod y safle’n ganolog yn y pentref ac yn agos i’r rhwydwaith ffordd sirol a chludiant cyhoeddus. Mae’r gwelliannau amgylcheddol a gynigir hefyd yn dderbyniol i wella gwedd y safle, sydd eisoes o safon uchel a dymunol. Nid oes safle teithiol yng nghyffiniau agos y safle, nac yn yr un cyd-destyn gweledol felly ni ystyrir bod effaith gronnol yn bodoli yn yr achos yma. Ystyrir felly fod y bwriad dan sylw yn cydymffurfio a gofynion polisi B27 tirlunio a D20 CDUG sy’n ymwneud ac ymestyn a lleiniau ychwanegol ar safleoedd carafanau teithiol presennol.

5.3 Nodir bod safle’r cais o fewn tir sydd wedi ei ddynodi ym mapiau cynigion CDUG fel llecyn agored i’w warchod rhwng pentrefi Morfa Nefyn a Nefyn. Gan mai safle carafanau teithiol presennol yw hwn, gyda’r estyniad ymysg a thu ôl i adeiladau presennol ni ystyrir fod yr hyn sy’n cael ei gynnig yn cyfaddawdu nac yn ymwthio’n sylweddol arwyddocaol i’r llecyn agored i’w warchod. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol yn nhermau polisi B11 CDUG.

5.4 **Mwynderau trigolion cyfagos**

Mae’r safle carafanau wedi ei leoli yng nghanol pentref Morfa Nefyn ac felly yn sgil hynny mae tai annedd i’w cael gerllaw i’r safle. Ystyrir fod digon o le ar gyfer y cynnydd mewn nifer heb ôr ddatblygu’r safle ac er y byddai peth gynnydd yn y traffig fyddai’n defnyddio’r safle, ni ystyrir y byddai’r cynnydd yma yn achosi niwed arwyddocaol i amwynderau lleol o gofio safon y ffordd. Mae’r safle wedi ei sgrinio’n dda ac felly ei ardrawiad wedi ei gynnal o fewn y ffiniau. O gymryd y defnydd presennol i ystyriaeth, ni ystyrir y byddai’r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau’r gymdogaeth leol. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan gymdogion i’r bwriad. Credir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt Polisi B23 Mwynderau CDUG.

5.5 **Materion trafnidiaeth a mynediad**

Ceir mynedfa i’r safle oddi ar ffordd sirol dosbarth 2 y B4417 sy’n syth a gwastad ac mae’r agoriad fymryn tu allan i barth cyflymder 30 milltir yr awr. Ceir gwelededd boddhaol i’r naill gyfeiriad ac ystyrir yn dderbyniol o ran diogelwch ffyrdd. Ni ystyrir fod y cynnydd mewn niferoedd yn debygol o gael effaith andwyol ar y rhwydwaith ffyrdd o ystyried safon y ffordd. Ceir lle parcio digonol o fewn y safle a man parcio gorlif sydd wedi ei wella yn ddiweddar. Ymddengys bod gwaith diweddar wedi ei wneud i’r fynedfa hefyd a bwriedir gwella’r plannu ar y clawdd. Nid oes gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i’r bwriad ac felly ystyrir yn cydymffurfio a gofynion polisi CH33 sy’n ymwneud a diogelwch ffyrdd.

5.6 Gan fod y llwybr cyhoeddus ochr draw i wrych terfyn dwyreiniol y cae sy’n destun yr estyniad, ni fydd y bwriad yn amharu ar gwrs y llwybr nac yn rhwystro ei ddefnydd yn yr achos yma felly yn dderbyniol ar sail polisi CH22 CDUG.

5.7 **Materion Ieithyddol**

Mae Polisi A2 CDUG yn nodi y dylid gwrthod cynigion a fyddai, oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau. Gan fod y bwriad yn ymwneud gyda datblygiad twristiaeth a fydd yn creu deg neu fwy o unedau gwyliau

mae gofyn fod Datganiad Ieithyddol a Chymunedol yn cael ei baratoi er cydymffurfio gyda gofynion Canllaw Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Derbyniwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fel rhan o'r cais ac ymgynghorwyd gyda'r Uned Polisi ar y Cyd. Derbyniwyd eu hymateb sy'n nodi na chredir fod natur na graddfa'r datblygiad yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Gan fod y cynnig yn gyfan gwbl ar gyfer lleiniau teithiol, ac nid parhaol, mae'n annhebygol y byddai'r datblygiad yn cael ardrawiad ar fewnfudiad i'r ardal. Ar sail yr ymateb ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol yng nghyd destun polisi A2 CDUG.

## 6. Casgliadau:

6.1 Nid yw'r safle dan sylw yn ymwthiol nac amlwg yn y dirwedd ac felly credir yn safle addas i dderbyn unedau ychwanegol. Mae'n safle o safon uchel ac wedi ei dirlunio'n dda ar hyd y ffiniau, a byddai'r tirlunio ychwanegol yn arwain at welliannau amgylcheddol fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol i osodiad a gwedd yn y dirwedd. Ni ystyrir y bydd niwed i fwynderau trigolion cyfagos yn sgil y cais, o gofio bod hwn yn safle presennol ac mae'r safle yn agos i'r rhwydwaith ffyrdd. Gan mai safle teithiol ydyw ni ystyrir y bydd effaith niweidiol i'r iaith Gymraeg yn sgil y datblygiad. Ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio gyda'r polisïau a drafodwyd uchod ac felly yn dderbyniol i'w ganiatáu gydag amodau cynllunio perthnasol

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu gydag amodau -

5 mlynedd
Unol Â'r cynlluniau
Cyfyngu niferoedd
Cyfnod gweithredu
Cyfnod amser / teithiol yn unig
Gwyliau yn unig,
Cadw cofrestr
Tirlunio
Diogelu llwybrau cyhoeddus
Dim storio

**Rhif y Cais / Application Number : C14/1065/42/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

20 HYD 2014




Promap

Greenacres Caravan Park
Morfa Nefyn,
Pwllheli
LL53 6BP




Peidiwch a chymryd mesuriadau graffig oddi ar y dyluniad hwn
Os yn amau - gofynnwch
Do not scale from this drawing
If in doubt - ask

Mae'r dyluniad hwn yn hawlfraint Penseiri Russell-Hughes ac ni chaniateir ei gopio neu ei atgynhyrchu heb ganiatad

This drawing is the copyright of Russell-Hughes architects and must not be copied or reproduced without permission

Cynllun - Job
TYN Y COED
MORFA NEFYN

Dyluniad - Drawing
PROPOSED SITE PLAN

Rhif Dyluniad - Drawing No.
2105:14:3

Graddfa - Scale
1:250 @ A1

Dyddiad - Date
MAR 2014

russell-hughes cyf
penseiri/architects
56 Bridge Street,
Llangefni,
Ynys Mon
LL77 7HH
Tel: 01248 722333
Fax: 01248 750600
E-mail: info@russellhughes.co.uk